



ADRODDIADAU ARHOLWYR

**LLWYBRAU MYNEDIAD
CYMRAEG**

HAF 2015

LLWYBRAU MYNEDIAD

CYMRAEG

Haf 2015

Prif Safonwr: Ms Rhian Ellis

Roedd ôl paratoi amlwg ar y cyfan ar waith unedau a gyflwynwyd yr haf hwn. Diolch i athrawon ledled y wlad am waith hynod o werthfawr gyda'r ymgeiswyr ar y lefel hon, sydd yn datblygu hyder a hunan werth ein dysgwyr yn ogystal ag ennill iddynt gymhwyster.

Deil ychydig o bwyntiau sy'n codi ynglŷn â'r gwaith gweinyddol a adroddwyd y tro diwethaf.

- Mae angen cyflwyno'r gwaith fesul **uned** ac nid fesul disgybl.
- Mae angen tystiolaeth o **safoni mewnol** gan sicrhau bod rhywun arall yn bwrw golwg ar y gwaith.

Mae modd erbyn hyn i ganolfannau anfon recordiadau o'r tasgau llafar ar ffon gof yn ogystal â chryno ddisg.

Uned 6360 – Trafod Profiadau a Theimladau

Ar eu gorau, pleser yw gwrandao ar ymgeiswyr yn siarad mewn iaith naturiol a chyfoethog gan drafod testunau o wir ddiddordeb iddynt a rhai y mae ganddynt brofiad ohonynt. Maent yn llwyddo'n arbennig o dda o ganlyniad i hynny. Cafwyd enghreifftiau gwirioneddol wych o athrawon yn arwain mewn ffordd sensitif a chynnil gan sicrhau bod ymgeiswyr yn cyrraedd y safon uchaf posib trwy ymateb i gwestiynu agored. Fodd bynnag, yn anffodus, cafwyd enghreifftiau o ddisgyblion yn darllen sgrïpt neu'n cyflwyno gwybodaeth yn ôl gofynion y dasg TGAU llafar. Cofiwch eto os gwelwch yn dda mai hanfod y dasg hon yw **trafod profiadau a theimladau**, ac nid mynegi barn neu gyflwyno gwybodaeth, AC FE DDYLID OSGOI SGRIPTIO AR BOB CYFRI'.

Uned 6361 – Trawsieithu i'r Gymraeg

Mae athrawon bellach wedi ymgyfarwyddo i bob pwrpas gyda gofynion y dasg hon ar y cyfan. Mae ymgeiswyr yn meddu ar sgiliau arbennig sy'n profi eu deallusrwydd dwyieithog. Cofiwch fod angen deunydd ymestynnol ar gyfer M3, a cheir enghreifftiau o hyn ar wefan ddiogel CBAC (Deunyddiau DPP). Cofiwch nad tasg gyfieithu mohoni. Gofynnir yn garedig i ganolfannau amgáu'r deunydd darllen Saesneg a ddefnyddiwyd.

Uned 6362 – Ymateb ar lafar i raglen deledu / ffilm Gymraeg

Llwydda'r ymgeiswyr i drafod rhaglen / ffilm cwbl addas o fewn eu profiad mewn dyfnder, a'r goreuon ar M3 yn gallu cyfeirio at dechnegau ffilm. Nodwch os gwelwch yn dda ei fod yn hanfodol trafod TECHNEG AU ffilm / rhaglen deledu er mwyn cyrraedd M3. Eto, mae holi cynnil, pwrpasol gan athrawon yn angenrheidiol er mwyn sicrhau potensial ymgeiswyr. Mae angen OSGOI sgrïptio ar bob cyfri'.

Uned 6363 – Ymateb i ddeunydd darllen llenyddol (Rhyddiaith)

Mae hon yn dasg boblogaidd iawn a llwydda'r ymgeiswyr i ymateb yn ddiddorol i ddeunydd addas o fewn eu profiad. Er bod lle i fod yn greadigol, mae angen cadw at ffeithiau'r testun a astudiwyd. Cofier bod angen bwrw pob un o'r meini prawf, a bod gwaith M3 yn gofyn am gryn dipyn o ysgrifennu estynedig. Mae angen i chi sicrhau eich bod yn nodi enw'r nofel neu ddrama neu stori ac ati yr ymatebir iddynt.

Uned 6364 – Ysgrifennu Stori

Cafwyd straeon o safon uchel gan ymgeiswyr a oedd wedi eu paratoi'n fanwl trwy gynllunio mewn dyfnder. Gan y goreuon gwelwyd ymdrech i ddisgrifio a chreu nodweddion arddull a naws a oedd at ei gilydd yn creu straeon diddorol, gwreiddiol a bywiog.



CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk